

Sul y Beibl

Pregeth ar Salm 119.129-136

Pregeth

- ¹²⁹ Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol,
a dyna pam dw i'n eu cadw nhw.
- ¹³⁰ Mae dy eiriau di yn goleuo materion,
ac yn rhoi deall i bobl gyffredin.
- ¹³¹ Dw i'n dyheu, dw i'n disgwyl yn geg agored
ac yn ysu am dy orchmynion di.
- ¹³² Tro ata i, a bydd yn garedig ata i;
dyna rwyt ti'n ei wneud i'r rhai sy'n caru dy enw di.
- ¹³³ Dangos di'r ffordd ymlaen i mi;
paid gadael i'r rhai drwg gael y llaw uchaf arna i!
- ¹³⁴ Gollwng fi'n rhydd o afael y rhai sy'n fy ngormesu,
er mwyn i mi wneud beth rwyt ti'n ei ddweud.
- ¹³⁵ Bydd yn garedig at dy was,
a dysga dy ddeddfau i mi.
- ¹³⁶ Mae'r dagrau yn llifo fel afon gen i
am fod pobl ddim yn ufudd i dy ddysgeidiaeth di.

Beibl.net

Faint o Feiblau sydd gennych chi gartref? Mae gen i ormod i'w cyfri, bron! Gwahanol gyfieithiadau, fformatau, meintiau... Hyd yn oed os ydych chi'n rhywun cymharol newydd i'r ffydd, mae'n debygol y bydd gennych chi Feibl neu ddau. Yn ogystal â hyn, mae'r rhyngwyd wrth law – mewn eiliadau gallwch edrych ar adnod yn y Beibl, ac mae'n debyg bod gennych chi'r Beibl mewn app ar eich ffôn clyfar. Does dim angen llusgo llyfr mawr, swmpus gyda chi i bob man, ac rydych chi'n gallu ei ddarllen unrhyw bryd, yn unrhyw le. Mae gennym fynediad haws at air Duw nag erioed o'r blaen. Ac eto, a ydyn ni'n sylweddoli beth ydi'r trysor sydd gennym ni?

Wedi'r cyfan, wrth i ni ddarllen gair Duw rydyn ni'n dod yn gyfarwydd ag ef - creawdwr a gwaredwr y byd. Felly sut ydyn ni'n ymateb i Dduw pan fyddwn ni'n darllen y Beibl? Sut ydyn ni'n trysori Duw a'i air? Dyna'r cwestiwn allweddol i'w ofyn i ni ein hunain wrth i ni ddarllen y darn o Salm 119.

Salm 119 yw'r bennod hiraf yn y Beibl, ac mae'n dathliad o weddill y llyfr. Drwy'r salm, mae'r awdur dienw yn myfyrio ar ddibynadwyedd a digonolrwydd gair Duw, pa bynnag amgylchiadau y gallem eu hwynebu mewn bywyd. Mae bron pob adnod yn cyfeirio'n ôl at yr ysgrythurau mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, yn y darn dan sylw, cyfeirir ato fel ei 'dystiolaethau', ei 'eiriau', ei 'orchmynion', ei 'addewid', ei 'braeseptau', ei 'statudau' a'i 'gyfraith'. Mae pob un o'r geiriau hyn yn dangos arlliw o ystyr gwahanol ac yn datgelu cyfoeth y ffordd mae Duw yn cysylltu â ni. Drwy gydol y salm rydyn ni'n cael ein tynnu'n ôl yn gyson at wirionedd a grym yr hyn mae Duw wedi ei ddweud, ac, y tu hwnt i'r geiriau, ffyddlondeb Duw ei hun.

Fe wnaeth y pregethwr o Fedyddiwr enwog, CH Spurgeon, delynegu am y salm hon. 'Po fwyaf y mae rhywun yn ei hastudio, y mwyaf ffres mae'n dod,' meddai. 'Nid yw'n cynnwys gair segur; mae grawnwin y clwstwr hwn bron â byrstio gan eu bod yn llawn o win newydd y deyrnas.' Ac 'yn ei ddyfnderoedd mae cefnfor o dân, a bydd y rhai sy'n syllu'n ewyllysgar arni nid yn unig yn gweld y disgleirdeb, ond hefyd yn teimlo golau'r fflam sanctaidd'.

Nid yw'n syndod iddo ddweud, 'Tipyn o gamp fuasai i ni gofio pob gair ar ein cof.'¹

Hyd yn oed os mai dim ond un o'i 22 pennill rydyn ni'n ei ddarllen - sydd i gyd yn dechrau gyda llythyren wahanol yn yr wyddor Hebraeg – yr hyn sy'n ein taro, fel y gwelodd Spurgeon, yw bod hon yn salm llawn teimlad dwfn. Nid yw gair Duw yn sych nac yn llychlyd, fel mae ein diwylliant yn mynnu yn aml.

Gadewch i ni ddarllen y darn a chael blas ar yr angerdd a'r cyffro hwnnw dros yr Ysgrythur a thros Dduw: [DARLLEN Y DARN – SALM 119.129-136]

(Mae'n bosibl yr hoffech chi oedi am gyfnod byr ar ôl darllen y darn i fyfyrion ar y geiriau.)

Byddwn yn rhannu'r darn yn adrannau ac yn edrych yn fanylach ar y ffordd mae'r salmydd yn ymhyfrydu yng ngair Duw, ei awydd i ddysgu sut i blesio Duw, ei benderfyniad i gadw at ffyrdd Duw ac yn olaf y gofid mae'n ei brofi pan mae pobl yn anwybyddu Cyfreithiau Duw.

- **Rhyfeddol (129-130)**
- **Dyheu (131)**
- **Penderfynol (132-135)**
- **Dagrau (136)**

Rhyfeddol (adnodau 129-130)

Mae'r adnodau hyn yn sôn am rywbeth hynod ddymunol i'n meddyliau a'n heneidiau. Mae'r salmydd yn mynegi ei lawenydd yn 'nhystiolaethau' Duw - y gwirioneddau mae'n eu canfod yng ngeiriau Duw a thystiolaeth o'i sofraniaeth a'i gymeriad cariadus, cyfiawn, teg a thrugarog. Pan mae'n dweud, 'dyna pam dw i'n eu cadw nhw' rydyn ni'n cael ymdeimlad ohono'n trysori tystiolaethau Duw am dragwyddoldeb.

Yna mae'n rhyfeddu at sut mae geiriau Duw 'yn goleuo materion' ac yn 'rhoi deall i bobl gyffredin.' Mae'r ymadrodd hwnnw, 'goleuo materion,' yn awgrymu cyfranogiad gweithredol, ceisio deall beth mae Duw yn ei wneud. Mae'n bosibl eich bod chi'n cofio cael eich cyfareddu gan bŵer esboniadol y Beibl. Yn sydyn, roedd eich profiad bywyd a'r byd o'ch cwmpas yn gwneud synnwyr mewn ffordd nad oeddech chi wedi ei brofi o'r blaen. Fel y ysgrifennodd CS Lewis, 'Rwy'n credu mewn Cristnogaeth gan fy mod yn credu bod yr haul wedi codi, nid yn unig oherwydd fy mod i'n ei weld, ond fy mod i'n gweld popeth arall oherwydd hynny.'² Daw'r ddealltwriaeth honno drwy ddatguddiad Duw ei hun, ym mherson goruchaf Iesu, ond a ddatguddiwyd yn nhystiolaeth y Beibl.

Dyheu (adnod 131)

Gan fod gair Duw mor dda, mae'r Salmydd yn profi awydd dwys am ei orchmynion. Mae'n dyheu am gyfarwyddyd Duw, am gael ei gyfarwyddo ganddo. Dydyn ni ddim yn caru'r Beibl fel llyfr er ei fwyn ei hun - oherwydd drwy ei ddarllen a'i ddilyn rydym yn gallu dod i adnabod Duw ei hun. A'r rheswm dros ddymuno gwneud hynny yw plesio Duw yn y pen draw. Mae'r Salmydd yn awyddus i wybod sut i blesio a gogoneddu Duw yn ei fywyd. Dylai'r sêl honno fod yn her i ni. Ydyn ni'n mynd at air Duw gyda'r un awydd?

[Pan ddechreuais ddarllen y Beibl drosof i fy hunan am y tro cyntaf, ni allwn ollwng gafael ynndo. Es i'r brifysgol i astudio mathemateg, ond gellid dweud yn ddigon teg bod fy sylw wedi troi yn gyflym iawn at astudio'r Beibl. Roeddwn wedi mynd i'r eglwys ers pan oeddwn i'n ddim o beth, ac yn anaml y buaswn i'n colli Sul, felly roeddwn wedi clywed y Beibl yn cael ei ddarllen mewn gwasanaethau bob wythnos. Fodd bynnag, fe brofais rywbeth gwahanol wrth i mi ei ddarllen er fy mwyn i fy hun. Roeddwn yn ei chael hi'n llawer haws clywed Duw yn siarad yn uniongyrchol â mi - efallai gan fy mod i'n darllen y Beibl yng nghyd-destun fy mywyd cyffredin, bob dydd - ac roeddwn i hefyd yn gwerthfawrogi neges Duw i ni yn ehangach, gan fy mod yn darllen rhannau hirach o'i air yn hytrach na chlywed darnau y tu allan i'w cyd-destun. Syrthiodd cymaint o bethau i'w lle a oedd wedi bod yn aneglur neu'n amherthnasol i mi cyn hynny.' Dyma dystiolaeth Paul Harcourt – ychwanegwch eich un chi eich hun yma.]

¹CH Spurgeon, 'Psalm 119 On the Whole Psalm' www.blueletterbible.org/Comm/spurgeon_charles/tod/ps119_00.cfm.

²CS Lewis, 'Is Theology Poetry?'

Penderfynol (adnodau 132-135)

Yn adnodau 132-135 mae'r salmydd yn dangos ei benderfyniad i droi'r awydd i gadw gorchmynion Duw a'i blesio yn gamau ymarferol. Ar unwaith, mae'n cydnabod ei fod angen help Duw i wneud hyn. Gall weld yr holl rwystrau a'r anawsterau y gallai ddod ar eu traws. Ond yn hytrach na cholli gobaith, mae'n dangos ei ddealltwriaeth o sofraniaeth Duw a'i gymeriad cariadus a maddeuol wrth iddo alw arno i droi ato a 'bod yn rasol', i gadw ei gamau yn gyson ac i 'beidio â gadael i anwiredd gael goruchafiaeth' arno ef.

Mae'n galw ar Dduw i'w 'achub' rhag 'gorthrwm dyn', nid yn unig oherwydd ei bod yn annymunol cael eich gormesu ond er mwyn iddo fod yn rhydd i gadw praeseptau Duw uwchlaw praeseptau pobl. Ystyr praeseptau yw rheolau sy'n rheoleiddio ein meddyliau a'n hymddygiad. Mae cymhwyso hyn i ni ein hunain yn her wirioneddol. A ydym yn ddigon penderfynol y bydd ein meddyliau a'n hymddygiad yn cael eu rheoleiddio gan yr hyn y mae Duw yn ei ddweud sy'n dda uwchlaw gwerthoedd cyfredol ein cymdeithas?

Yn adnod 135 mae'r Salmydd yn disgrifio ei hun fel 'gwas' Duw ac yn apelio at Dduw ei hun, 'dysg i mi dy ddeddfau.' Pa mor ostyngedig ydym ni wrth i ni agosáu at air Duw, ac a ydym yn gofyn am ei help i ddysgu a chadw at ei ffyrdd?

Dagrau (adnod 136)

Efallai bod adnod 136 yn ymddangos yn ffordd ryfedd o ddod â'r myfyrdod hwn i ben. Yn ein cymdeithas, mae cael eich gweld fel rhywun goddefgar i bawb yn cael werthfawrogi i'r fath raddau fel ein bod ni'n aml yn gyndyn o wthio ein safbwyntiau ar eraill - neu hyd yn oed awgrymu bod yr hyn rydym wedi ei ddarganfod yn well. Y peth olaf rydym ei eisiau yw cael ein gweld fel rhywun sy'n meddwl ei fod yn well na phawb arall, neu'n feirniadol o eraill. Ond pan fyddwn yn darllen geiriau'r Salmydd 'Mae'r dagrau yn llifo fel afon gen i', dydyn ni ddim yn cael teimlad o ddicter yn deillio o ysbryd beirniadol, ond yn hytrach ing am gyflwr pobl sy'n byw mewn anwybodaeth o'r hyn rydym wedi ei ganfod. Mae pobl nad ydyn nhw'n gwybod am ffyrdd Duw yn brifo eu hunain ac eraill. Mae'r dagrau'r Salmydd yn llifo fel afon, gan nad yw pobl yn cadw at gyfraith Duw. Os oes gennym ni farn glir am Dduw fel ein Harglwydd a'n gwaredwr, dylem ofidio dros y nifer fawr o bobl nad ydyn nhw'n gyfarwydd â Duw na'i ffyrdd. Y cwestiwn yw, sut bydd ein gofid yn ein cymell i weithredu? Sut gallwn ni helpu pobl i ddod i adnabod Duw? Os ydych chi wedi dod o hyd i ryw beth da, y peth cariadus i'w wneud yw gwneud i eraill fod yn ymwybodol ohono a gweddio y bydd eu llygaid yn cael eu hagor hefyd.

Mae pobl ar draws y byd sydd, am amrywiaeth o resymau, heb fynediad at air Duw. Efallai eu bod yn byw mewn man lle mae'r Beibl wedi ei wahardd a lle mae Cristnogion yn cael eu herlid. Efallai nad oes cyfieithiad o'r Beibl yn eu hiaith eto, neu efallai bod tlodi yn golygu bod meddu ar Feibl yn foethusrwydd drud sydd allan o gyrraedd pobl. Mae tystiolaethau pobl sydd wedi rhoi popeth er mwyn cael yr ysgrythurau yn eu hiaith eu hunain, neu i'w gwneud ar gael i eraill, bob amser yn cyffwrdd â'm calon.

Gadewch i mi rannu hanes Tadala, merch ifanc o drefgordd dlawd ym Malawi. Roedd hi bob amser yn mynd i'r ysgol Sul ond dim ond ychydig o Feiblau oedd ar gael i'w rhannu rhwng 130 o blant. Ni allai ei theulu fforddio Beibl, heb sôn am un wedi ei anelu at blant, felly roedd hi'n ei chael hi'n anodd deall yr addysg yn yr eglwys.

Felly yr oedd pethau nes i gefnogwyr Cymdeithas y Beibl sicrhau bod Tadala yn cael Beibl i blant. Heddiw, mae Tadala wrth ei bodd yn darllen straeon o'r Beibl i'w theulu ac yn rhannu'r newyddion da am Iesu gyda nhw. Meddai, 'Nawr, rydw i wir yn deall beth mae'n ei olygu i adnabod Iesu. Mae'r Beibl yn dweud wrthyf fod Iesu gyda mi.'

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwybod mwy am sut beth yw cefnogi Cristnogion fel Tadala drwy Gymdeithas y Beibl, beth am gael sgwrs gyda mi ar ôl y gwasanaeth. (*Mae'r frawddeg olaf hon yn ddewisol, yn dibynnu a ydych chi'n gwneud casgliad neu'n awyddus i annog pobl i gefnogi Cymdeithas y Beibl yn bersonol.*)

Onid ydi hi'n galonogol clywed am awydd Tadala i adnabod Iesu a rhannu'r newyddion da amdano o'r Beibl? Wrth i ni chwilio ein calonnau, os ydym yn canfod mai ychydig iawn sydd yno ond difaterwch, yna rydyn ni ar ein colled. Efallai ei bod yn amser gofyn i Dduw ein helpu ni i ddod yn debycach i'r salmydd, yn trysori Duw a'i air - gan gadw ei dystiolaethau yn ein heneidiau. Gadewch i ni ofyn i Dduw gynyddu ein hyfrydwch ynddo ef a'i air. Gadewch i ni ofyn i Dduw gynyddu ein dymuniad a'n penderfyniad i gadw ei orchmynion a'i blesio. Yn olaf, gadewch i ni ofyn i Dduw gynyddu ein trugaredd tuag at y rhai colledig, y rhai nad ydyn nhw'n adnabod neu'n cydnabod yr Arglwydd ein Duw, ac i'n helpu ni i fyw fel tystion effeithiol iddo.

Gwybodaeth am yr awdur

Astudiodd Paul Harcourt ddiwinyddiaeth ym Mhrifysgol Rhydychen ac erbyn hyn mae'n Arweinydd Cenedlaethol New Wine ac yn ficer Eglwys yr Holl Saint Woodford Wells. Mae ganddo ef a'i wraig Becky ddau o blant, ac mae gan yr hynaf o'r ddau anghenion arbennig. Dan arweinyddiaeth Paul, mae Eglwys yr Holl Saint wedi datblygu i fod yn rhwydwaith o bedair eglwys, gydag Eglwys yr Holl Saint yn gweithredu fel eglwys adnoddau ar gyfer y rhanbarth. Mae Paul wedi ysgrifennu dau lyfr am ddilyn Iesu i fywyd yn llawn o'r Ysbryd - *Growing in Circles* (2016) a, gyda Becky, *Walking on Water* (2017).

Fformat nodiadau

Darllen – Salm 119:129-136 (Beibl.net)

Cyflwyniad – Sawl Beibl sydd gennych chi? Ydyn ni'n trysori Duw a'i air?

Cyd-destun – Dibynadwyedd a digonolrwydd gair Duw / gwirionedd a grym yr hyn mae Duw wedi ei ddweud a ffyddlondeb Duw ei hun.

Addysgu - yn seiliedig ar 4 pwynt

- **Rhyfeddol (129-130)** – Bod ffydd yn dod drwy ddatguddiad Duw ohono'i hun, ym mherson goruchaf Iesu, ond yn ddi-os yn nhystiolaeth y Beibl
- **Dyheu (131)** – Y dyhead i wybod beth yw gorchmynion Duw fel y gallwn ni gadw atyn nhw, a phlesio a gogoneddu Duw drwy wneud hynny.
- **Penderfynol (132-135)** – Rydyn ni angen help Duw i weithredu ar ein penderfyniad i gadw at ei ffyrdd.
- **Dagrau (136)** – Tristwch a gofid pan nad yw pobl yn ymateb i Dduw yn briodol. Beth ddylai'r tristwch hwn ein cymell ni i'w wneud?

Stori Cymdeithas y Beibl – Tadala ym Malawi:

biblesociety.org.uk/latest/news/the-girl-whose-name-means-blessed/

Cymhwysu

Gofyn i Dduw ein gwneud ni'n debycach i'r Salmydd - cynyddu faint rydyn ni'n ymhyfrydu yn Nuw a'i air, cynyddu ein dymuniad a'n penderfyniad i gadw at ei ffyrdd a chynyddu ein gofid dros yr rhai a gollir, er mwyn ei enw.

